# CÔD CYFRYNGAU MYFYRWYR

Rheoli Fersiynau

Fersiwn 1 – Cymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad ar 20fed Tachwedd 2017

Fersiwn 2 – Cymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad ym mis Mai 2019

Fersiwn 3 - Cymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad ym mis Mehefin 2023

Fersiwn 4 - Cymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad ym mis Awst 2025

# Côd Cyfryngau Myfyrwyr

Mae'r Côd hwn yn cynnwys:

1. Cyflwyniad
2. Côd Ymddygiad a Safonau Moesegol
3. Annibyniaeth Olygyddol
4. Cynnwys Risg Uchel
5. Llên-ladrad a Hawlfraint
6. Cyflwyniad gan Awduron i Gyfryngau Myfyrwyr Caerdydd
7. Cynnwys Ar-lein
8. Rheoli Perthnasoedd â'r Undeb a'r Brifysgol
9. Adrodd ar Faterion Sensitif
10. Ymddygiad a Disgyblaeth
11. Newidiadau i'r Côd

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Undeb yn credu bod grwpiau effeithiol dan arweiniad myfyrwyr o fewn Cyfryngau Myfyrwyr yn hanfodol wrth adlewyrchu llais myfyrwyr. Mae pob adran hefyd yn darparu cyfleoedd heriol a gwerth chweil i aelodau, gan gyfoethogi profiadau myfyrwyr a rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau.

Gellir crynhoi pwrpas grwpiau cyfryngau fel a ganlyn:

- Cynhyrchu cyhoeddiadau/rhaglenni myfyrwyr sy'n tarddu o straeon myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr.
- Bod yn fforwm ar gyfer trafodaethau myfyrwyr, gan adlewyrchu bywyd campws a barn aelodau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd mor gywir â phosibl.
- Bod yn gyfle i aelodau ennill sgiliau a phrofiad o drefnu a dosbarthu cyhoeddiadau cyfryngau.

- Cynhyrchu, mor gywir â phosibl, cynnwys sy'n hysbysu ac yn diddanu ei gynulleidfaoedd gyda gwirionedd a thegwch yn flaenoriaeth.

Mae’r Cyfryngau Myfyrwyr yn cynnwys:

- Gair Rhydd
- Quench
- CUTV (Teledu Undeb Caerdydd)
- Radio Xpress

## 2. Côd Ymddygiad a Safonau Moesegol

Rhaid i grwpiau cyfryngau myfyrwyr gweithredu’n unol â’r gyfraith ond byddant hefyd yn cadw at eu codau ymddygiad proffesiynol perthnasol gan gynnwys:

| Cyfryngau print: | Cyfryngau darlledu: |
|---|---|
| IPSO | Ofcom |
| Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr | |

Bydd gwirfoddolwyr Cyfryngau Myfyrwyr yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â Chôd Ymddygiad yr NUJ ac yn ei ddilyn:

Newyddiadurwr:

1. Pob amser yn cynnal ac yn amddiffyn yr egwyddor o ryddid cyfryngol, yr hawl i ryddid mynegiant, a hawl y cyhoedd i gael gwybod.
2. Yn ymdrechu i sicrhau bod y wybodaeth a ddosberthir yn cael ei chyfleu'n onest, yn gywir, ac yn deg.
3. Yn gwneud eu gorau glas i gywiro gwallau niweidiol.
4. Yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn.

5. Yn casglu deunydd trwy ddulliau gonest ac agored, ac eithrio ymchwiliadau sydd er budd y cyhoedd ac sy'n cynnwys tystiolaeth na ellir ei chael trwy ddulliau syml.

6. Ddim yn gwneud unrhyw beth i ymwthio i fywyd preifat, galar neu drallod unrhyw un oni bai y gellir ei gyfiawnhau drwy fudd i'r cyhoedd.

7. Yn diogelu ffynonellau sy'n darparu gwybodaeth a deunydd a gasglwyd yn ystod eu gwaith yn gyfrinachol.

8. Yn gwrthsefyll bygythiadau neu unrhyw gymhellion eraill i ddylanwadu neu atal gwybodaeth, a ddim yn cymryd mantais bersonol annheg o'r wybodaeth a geir yn ystod eu dyletswyddau cyn i'r wybodaeth fod yn wybodaeth gyhoeddus.

9. Peidio cynhyrchu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o arwain at gasineb neu wahaniaethu ar sail oed, rhyw, hil, cred, statws cyfreithiol, anabledd, statws priodasol, neu gyfeiriadedd rhywiol.

10. Peidio, ar ffurf datganiad, lleisio neu hyrwyddo cymeradwyaeth am gynnyrch neu wasanaeth masnachol ac eithrio ar gyfer hyrwyddo eu gwaith eu hun neu'r cyfrwng sy'n eu cyflogi.

11. Bydd newyddiadurwr fel arfer yn ceisio caniatâd oedolyn priodol wrth gyfweld neu dynnu llun plentyn ar gyfer stori.

12. Yn osgoi llên-ladrad.

## 3. Annibyniaeth Olygyddol

Manylir ar y berthynas sy'n bodoli rhwng Cyfryngau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr yn y Datganiad Perthynas Cyfryngau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr fel y gwelir yn Atodiad 1.

Gellir crynhoi hyn fel a ganlyn:

- Nid yw Cyfryngau Myfyrwyr ei hun yn annibynnol o Undeb y Myfyrwyr
- Mae'r Undeb yn gweithredu fel cyhoeddwr ac o ganlyniad yn atebol am gyhoeddiadau
- Mae'r Undeb yn rhoi cymorth i Gyfryngau Myfyrwyr i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn deall y cyd-destun cyfreithiol y cânt eu gosod ynddo

- Nid yw'r Undeb yn ceisio rheoli'n olygyddol, fodd bynnag, rhaid iddo feddu ar y gallu i amddiffyn ei hun rhag gweithredu cyfreithiol

- Bydd y Grŵp Cynghori ar Gyfryngau Myfyrwyr yn cefnogi golygyddion a rheolwyr i gynhyrchu cynnwys a gall gyfarwyddo Cyfryngau Myfyrwyr i atal cyhoeddi neu ddarlledu hyd nes y gellir rhoi camau lliniaru ar waith.

## 4. Cynnwys Risg Uchel

Rhaid i bob golygydd, cyflwynydd neu gyfrannwr ddilyn y broses ganlynol.

**Adnabod cynnwys risg uchel**

Cynnwys risg uchel, yw cynnwys golygyddol y mae'n rhesymol meddwl y gall arwain at ymateb o ran cwyn neu hawl gyfreithiol. Bydd y cynnwys yn cynnwys unrhyw allbwn mewn fformat print neu ddarlledu a bydd yn cynnwys allbwn digidol megis gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Byddai'r rhestr ganlynol (nad sy'n hollgynhwysol) o bynciau neu senarios yn cael eu dosbarthu fel rhai risg uchel:

- Unrhyw gynnwys yn ymwneud ag ymchwiliadau heddlu, achosion llys, neu gyfyngiadau adrodd yn ymwneud ag achos sy'n mynd rhagddynt

- Unrhyw gynnwys sy'n ymwneud â sefydliadau gwaharddedig neu sefydliadau sy'n annog neu'n hyrwyddo casineb

- Unrhyw gynnwys sy'n enwi neu'n galluogi adnabod unigolyn neu grŵp wrth honni ymddygiad amhriodol

- Unrhyw gynnwys sy'n cyfeirio at enw asiantau gosod eiddo mewn perthynas â safonau darpariaeth neu gydymffurfiaeth â rheoliadau

- Unrhyw gynnwys sy'n gynnwys beirniadaeth o unigolion o fewn staff neu reolaeth Prifysgol Caerdydd

- Unrhyw gynnwys sy'n enwi neu'n galluogi adnabod unigolion neu aelodau o grŵp pan all wneud hynny effeithio ar eu lles. Gall hyn fod o ganlyniad i farn eithafol sydd ganddynt neu lle maent yn ymwneud â gwaith y gallai rhai anghytuno ag ef

- Unrhyw gynnwys am straeon "Newyddion Gwael" ynglŷn ag enwogion, lle gall gwaharddeb fodoli yn atal y fath cynnwys rhag cael ei gyhoeddi

**NID yw hon yn rhestr hollgynhwysol a dylai gwirfoddolwyr arweiniol a golygyddion ddatgan i'r panel unrhyw gynnwys y mae'n rhesymol tybio y gallai beri tramgwydd neu ofid i unigolyn neu grŵp.**

Dylid bod yn ofalus wrth roi sylw i gynnwys pleidiau gwleidyddol. Fel elusen gofrestredig, ni chaniateir i'r Undeb fuddsoddi adnoddau mewn gweithgarwch ymgyrchu pleidiau gwleidyddol. Dylai sylwadau ar wleidyddiaeth fod yn gytbwys a rhoi barn myfyrwyr ar y pwnc sy'n cael ei drafod.

Lle nodir cynnwys o'r fath, dylid dilyn y broses isod. Mae'r broses yn bodoli i ddiogelu cyfranwyr, golygyddion neu reolwyr a'r Undeb rhag camau cyfreithiol posibl naill ai o ganlyniad i dorri'r gyfraith neu hawliadau sifil dilynol. Bydd diystyru neu osgoi'r broses hon yn rhoi unigolion a'r sefydliad mewn perygl sylweddol a bydd yn cael ei drin fel mater disgyblu.

Er mwyn cychwyn y broses, dylai'r golygydd neu'r rheolydd hysbysu unrhyw aelod o'r Grŵp Cynghori ar Gyfryngau cyn gynted â phosibl.

**Proses ar gyfer rheoli cynnwys risg uchel**

Lle nodir bod cynnwys yn risg uchel o ganlyniad i'w, dylid dilyn y broses ganlynol:

| Gweithred | Person Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|
| Nodi eitemau a allai fod yn risg gyfreithiol ac ymgynghori â'r Grŵp Cynghori | Golygydd/Rheolwr | Dim hwyrach nag wythnos cyn cyhoeddi neu ddarlledu |
| Anfon drafft o'r erthygl/cynnwys at y Grŵp Cynghori gyda thystiolaeth ategol sy'n cefnogi'r cynnwys | Golygydd/Rheolwr | O fewn 24 awr i'r erthygl cael ei hamlygu i'r panel am y tro cyntaf |
| Grŵp Cynghori yn penderfynu a oes angen cyngor cyfreithiol | Grŵp Cynghori | Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi – 10.00yb |
| Golygydd/Rheolwr i e-bostio syniadau am gynnwys amgen i'r Grŵp Cynghori | Golygydd/Rheolwr | Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi – 10.00yb |
| Grŵp Cynghori i edrych am gyngor cyfreithiol (os oes angen) | Grŵp Cynghori | Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi – diwedd y dydd |

| | | |
|---|---|---|
| Y Golygydd/Rheolwr i anfon ceisiadau hawl i ymateb at bartïon er mwyn caniatáu iddynt ymateb / rhoi sylwadau ar y cynnwys arfaethedig | Golygydd/Rheolwr | Tri diwrnod cyn cyhoeddi – canol dydd |
| Golygydd/Rheolwr i gael erthygl wrth gefn rhag ofn | Golygydd/Rheolwr | Tri diwrnod cyn cyhoeddi – diwedd y dydd |
| Penderfyniad wedi'i wneud gan y Grŵp Cynghori ynghylch a all cynnwys redeg heb ei ddiwygio, gyda diwygiad, neu a ddylid defnyddio cynnwys wrth gefn | Grŵp Cynghori | Dau ddiwrnod cyn cyhoeddi – erbyn canol dydd |
| Os gall y cynnwys terfynol redeg, ond gyda diwygiadau, anfonir yr ail ddrafft at y Grŵp Cynghori | Golygydd/Rheolwr | Dau ddiwrnod cyn cyhoeddi – diwedd y dydd |
| Grŵp Cynghori yn cymeradwyo cynnwys yn derfynol | Grŵp Cynghori | Diwrnod cyn cyhoeddi |
| Caniatâd ar gyfer cyhoeddi testun a gynhyrchwyd gan AI | Golygydd/Rheolwr | Dim hwyrach nag wythnos cyn cyhoeddi neu ddarlledu |

Gellir cysylltu ag unrhyw aelod unigol o'r Grŵp Cynghori i ofyn am gyngor anffurfiol cyn neu wrth lunio'r cynnwys. Yn yr achos hwn gall aelod o'r grŵp roi cyngor neu arweiniad ynghylch a ddylai'r mater gael ei adrodd yn ffurfiol i'r Grŵp Cynghori.

## 5. Llên-ladrad a Hawlfraint

Ni fydd Grwpiau Cyfryngau Myfyrwyr yn caniatáu llên-ladrad neu dorri hawlfraint gan eu haelodau.

Defnydd o ddelweddau, sain, testun, a fideo o ffynonellau eraill

Dim ond gyda chaniatâd y person/cwmni sy'n dal yr hawlfraint neu'r rhai sy'n rhydd o hawlfraint y gall Grwpiau Cyfryngau Myfyrwyr atgynhyrchu delweddau.

Defnydd o ddelweddau, sain, testun a fideo gan Grŵp Cyfryngau Myfyrwyr.

Trwy gyflwyno llun, testun neu fideo i Grŵp Cyfryngau Myfyrwyr mae awduron yn cytuno rhoi trwydded ddiderfyn, barhaus, heb freindal ar gyfer hawliau'r llun neu fideo er mwyn iddo gael ei ddefnyddio gan yr Undeb a'r holl grwpiau Cyfryngau Myfyrwyr cysylltiedig ar gyfer unrhyw ddiben y gellir ei ystyried yn briodol o fewn telerau'r polisi hwn (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, defnydd ar y wefan ac mewn deunydd cyhoeddedig, ac ar werth i'r Brifysgol a rhai grwpiau myfyrwyr penodol).

Y cyfrannwr a'r golygydd fydd yn talu unrhyw gosbau ariannol sy'n deillio o atgynhyrchu cynnwys heb awdurdod.

Rhaid gwneud y canllawiau hyn yn glir i gyfranwyr wrth iddynt ymgysylltu â grwpiau Cyfryngau Myfyrwyr.

**Y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Newyddiaduraeth a Darlledu.**

Ni ddylid cynnwys testun a gynhyrchir gan AI mewn erthygl na'i lefaru gan ddarlledwr oni bai eu bod wedi gofyn am ganiatâd y Golygydd/Rheolwr yn gyntaf.

Ni fydd y Golygydd/Rheolwr yn rhoi caniatâd oni bai bod hynny'n briodol ym mhob amgylchiadau, a bod y newyddiadurwr / darlledwr wedi cymryd camau i wirio bod y deunydd a gynhyrchwyd yn gywir, a rhaid cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw hawlfraint yn cael ei thorri.

Lle rhoddir caniatâd i ddefnyddio testun a gynhyrchwyd gan AI, dylai'r newyddiadurwr/darlledwr gydnabod y ffynhonnell.

Bydd methu â dilyn y weithdrefn uchod, a bod rhywun yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol heb geisio caniatâd i'w ddefnyddio neu gydnabod y ffynhonnell, yn arwain at gamau disgyblu priodol, a all gynnwys rhybudd ffurfiol, ailhyfforddi gorfodol, neu fesurau eraill a ystyrir yn angenrheidiol yn seiliedig ar ddifrifoldeb y weithred o dorri'r rheolau.

## 6. Cyflwyniad gan Awduron i Gyfryngau Myfyrwyr Caerdydd

- Mae hawlfraint yr erthygl yn perthyn i'r cyhoeddiad neu blatfform myfyrwyr perthnasol. Gall yr awdur(on) ddefnyddio'r erthygl mewn fforymau eraill cyn belled ag y cydnabyddir y platfform cyfryngau myfyrwyr fel lleoliad y cyhoeddiad gwreiddiol.

- Ni all yr awdur ddileu neu ddiwygio'r cyhoeddiad gwreiddiol oni bai eu bod yn cywiro gwall.

- Ni fydd cyhoeddiad neu blatfform myfyrwyr yn dileu nac yn diwygio erthygl wreiddiol oherwydd bod barn yr awdur wedi newid, ond gellir tagio'r erthygl neu'r darllediad yn ôl disgresiwn y golygydd neu'r rheolwr i adlewyrchu'r newid hwn

## 7. Cynnwys Ar-lein – gwefannau a blogiau

Lle mae grwpiau yn aml yn cyhoeddi copïau o'u cyhoeddiadau neu'n cynnal blogiau, rhaid i'w gwefan gynnwys yr ymwadiad canlynol:

> *"Nid yw'r wybodaeth a'r safbwyntiau a ddarperir ar y tudalennau gwe hyn yn eiddo i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd"*

At hynny, pan fydd grwpiau'n rheolaidd yn cymryd rhan mewn dadleuon drwy eu tudalen we, dylid cyhoeddi'r datganiadau canlynol ar y dudalen fel arweiniad i gyfranwyr:

*"Gwnewch gyfraniadau sifil, chwaethus, ac adeiladol. Dim ymddygiad aflonyddgar neu sarhaus. Dim cynnwys anghyfreithlon neu annymunol. Nid yw deunydd anghyfreithlon, aflonyddus, difenwol, sarhaus, bygythiol, niweidiol, anweddus, rhywiol, sarhaus, neu annymunol fel arall yn dderbyniol."*

> *"Bydd cynnwys sarhaus a ddaw i sylw'r Golygydd/Rheolwr yr Orsaf yn cael ei drin yn ôl disgresiwn y person cyfrifol; gall hyn gynnwys gweithredu'r hawl i ddileu cynnwys yr adroddwyd amdano."*

## 8. Rheoli Perthnasoedd gyda'r Undeb a'r Brifysgol

Er bod Cyfryngau Myfyrwyr yn olygyddol annibynnol o Brifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, mae perthynas waith effeithiol o fudd i Gyfryngau Myfyrwyr a'r sefydliadau. Gall y sefydliadau ddarparu cefnogaeth, cyngor, a chynnwys yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â'r Brifysgol a thirwedd addysg uwch ehangach.

Gan ystyried hyn bydd Cyfryngau Myfyrwyr yn ceisio sicrhau:

- Cynigir yr hawl i ymateb i'r sefydliadau mewn perthynas â chynnwys sy'n cyfeirio at y naill sefydliad neu'r llall

- Rhoi amser rhesymol i'r sefydliadau ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau. Lle bynnag y bo modd, dylai hyn olygu caniatáu 48 awr ar gyfer ymateb

- Bod adrodd ar faterion sy'n ymwneud â'r sefydliadau yn gywir ac yn gyfredol

Bydd Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ceisio sicrhau:

- Ymatebir i ymholiadau gan y cyfryngau mewn modd amserol

- Darperir y wybodaeth ddiweddaraf

Dylid cyfeirio ymholiadau i'r Brifysgol at:

communications@caerdydd.ac.uk
Y prif bwynt cyswllt ar gyfer Prifysgol Caerdydd yw:
Chris Jones
Pennaeth yr Adran Cyfathrebu
02920 874731

Dylid cyfeirio ymholiadau i'r Undeb at:

SomL@caerdydd.ac.uk
Y prif bwynt cyswllt ar gyfer Undeb y Myfyrwyr yw:
Laura Som
Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
02920 781516

Mewn perthynas â'r Undeb a'r Brifysgol:

- Dylid cyfeirio pob ymholiad gan y cyfryngau at y cysylltiadau uchod. Ni ddylid mynd at aelodau staff yn uniongyrchol am wybodaeth neu sylwadau ar gynnwys golygyddol.

- Ni fydd aelodau unigol o staff yn cael eu henwi na'u gwneud yn adnabyddadwy mewn cynnwys

- Dylid priodoli sylwadau neu ymatebion gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol i "lefarydd" yr Undeb neu Brifysgol.

- Bydd unrhyw drafodaethau – oni bai eu bod wedi'u trafod fel oddi ar y cofnod ymlaen llaw – yn cael eu hystyried ar y cofnod a'u priodoli i lefarydd.

- Pan fydd gwirfoddolwyr Cyfryngau Myfyrwyr yn ymgysylltu â swyddogion etholedig, dylid rhoi eglurder penodol pan fydd sgwrs o’r fath yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i gynnwys neu ddatganiad ar gyfer cynnwys golygyddol a’u bod “yn cael eu cofnodi”.

## 9. Adrodd ar Faterion Sensitif

Mae sianeli cyfryngau myfyrwyr yn debygol o adrodd ar bynciau sensitif ynghylch lles ac iechyd meddwl myfyrwyr. Wrth wneud hynny bydd y canllawiau canlynol yn cael eu dilyn:

- Defnyddio’r Canllawiau Adrodd ar Hunanladdiad a gynhyrchir gan y Samariaid ar gyfer newyddiaduraeth gyfrifol am gynnwys o’r fath.

- Dylai defnydd o weithgarwch arolwg cynradd fod yn gytbwys ac adlewyrchu ymgysylltiad myfyrwyr

- Dylai pob erthygl ddarparu adran gymesur o gynnwys sy'n cyfeirio at wasanaethau cynghori priodol.

## 10. Ymddygiad a Disgyblaeth

Mae gan wirfoddolwyr Cyfryngau Myfyrwyr fynediad i’r swyddfeydd Cyfryngau Myfyrwyr a’r stiwdios yn unol â’r telerau ac amodau canlynol:

- Rhaid gadael y lleoliad yn ddiogel pan nad oes unrhyw un yno. Rydym wedi cael sawl achos o ddwyn o'r swyddfeydd oherwydd bod drysau'n cael eu gadael heb eu cloi. Cyfrifoldeb pob gwirfoddolwr yw sicrhau bod y cyfleuster yn cael ei gloi pryd bynnag nad yw'n cael ei ddefnyddio. Dylid cloi'r ddau ddrws i'r balconi, y prif ddrws a drws yr ystafell storio pan nad oes unrhyw un yno. Nid yw offer sy'n cael ei storio yn y swyddfa wedi'i yswirio pan fydd neu os caiff ei adael heb ei ddiogelu.

- Mae’r swyddfeydd ar gael rhwng 07:00 a 00:00 bob dydd, yn ystod tymhorau’r Brifysgol. Y tu allan i dymhorau, bydd yr oriau hyn yn cael eu lleihau. Ni chaniateir i aelodau aros yn y swyddfeydd wedi’r amser hwn oni bai bod yr Undeb wedi rhoi caniatâd penodol ymlaen llaw.

- Ni chaniateir yfed alcohol yn y swyddfeydd. Ni chaniateir i fyfyrwyr sydd dan ddylanwad diod neu sylweddau eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn y swyddfeydd. Dylid gofyn i unrhyw un sydd dan ddylanwad adael.

- Dylai pob gwirfoddolwr ymddwyn mewn modd rhesymol ac ymatal rhag ymddygiad sy’n debygol o dramgwyddo neu beri gofid i ddefnyddwyr eraill yn y swyddfa neu’r adeilad. Rhaid i wirfoddolwyr cyfryngau ufuddhau i gyfarwyddiadau gan unrhyw aelod o staff neu staff diogelwch ar bob adeg.

- Dylid storio a diogelu offer yn briodol pan nad yw’n cael ei ddefnyddio. Rhaid i bob gwirfoddolwr ddilyn gweithdrefnau archebu offer a rhaid rhoi gwybod am unrhyw eitemau coll neu ddiffygiol cyn gynted â phosibl.

- Gofynnir i wirfoddolwyr y cyfryngau gadw'r swyddfa mewn cyflwr glân a thaclus.

Os yw’r amodau uchod yn cael eu torri, mae’r Undeb yn cadw’r hawl i atal neu ddileu mynediad i unrhyw un neu bob un cyfleuster ar gyfer unigolion neu grwpiau.

## 11. Newidiadau i'r Côd

Bydd y ddogfen hon yn cael ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor Bodlonrwydd, Ymgysylltu a Chyfranogiad Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Bydd yr Undeb yn ceisio ymgynghori â Phenaethiaid Llwyfannau Cyfryngau Myfyrwyr ac aelodau'r Grŵp Cynghori mewn perthynas â diweddariadau i'r ddogfen hon.

## Atodiad 1

## Datganiad Perthynas Cyfryngau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr

Mae’r Cyfryngau Myfyrwyr yn bodoli i ddarparu:

- Llais i’r boblogaeth myfyrwyr
- Llwyfan ar gyfer trafod
- Profiad credadwy a gwerthfawr i wirfoddolwyr
- Gwybodaeth ac adloniant, sy’n wir a’n deg

Er mwyn hwyluso'r amcanion hyn, mae Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi gweithgareddau cynhyrchu papur newydd, cylchgrawn, radio, a theledu.

**Egwyddorion y berthynas**

Mae cyngor cyfreithiol yn dweud wrthym:

> *Nid yw Cyfryngau Myfyrwyr yn annibynnol o Undeb y Myfyrwyr.*
>
> *Mae Undeb y Myfyrwyr fel sefydliad yn gweithredu fel cyhoeddwr ac felly mae'r holl gynnwys cyfryngau a gynhyrchir gan Gyfryngau Myfyrwyr a'i wirfoddolwyr yn cael ei gyhoeddi gan yr Undeb. Mae Cyfryngau Myfyrwyr yn rhan gyfansoddol o Undeb y Myfyrwyr. Os derbynnir bod unrhyw atebolrwydd cyfreithiol am gynnwys cyfryngau yn cael ei ysgwyddo gan Undeb y Myfyrwyr, yna yn ei dro nid yw'n bosibl diffinio Cyfryngau Myfyrwyr fel annibynnol.*

**Annibyniaeth olygyddol**

Er bod y cyngor uchod yn rhoi arweiniad clir nad yw Cyfryngau Myfyrwyr yn annibynnol o Undeb y Myfyrwyr, er mwyn cyflawni'r tri amcan uchod, nid yw'r Undeb yn dymuno cael unrhyw reolaeth olygyddol dros y cynnwys a gyhoeddir neu a ddarlledir.

Wrth gynhyrchu cynnwys diddorol, heriol a blaengar mae perygl gwirioneddol o gyflawni troseddau sifil fel difenwi. Yn yr un modd, mae'r Undeb fel elusen yn cael ei lywodraethu gan y Comisiwn Elusennau sy'n gosod gofynion a chyfyngiadau ynghylch gweithgareddau elusennol. Yn y ddau achos mae cyfle am oblygiadau cyfreithiol ac ariannol sylweddol pe bai pethau'n mynd o chwith. Gall unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys sy'n arwain at gamau sifil neu gydymffurfio fod yn atebol.

Mae'r Undeb yn ceisio sicrhau y gall ddarparu amddiffyniad ar gyfer gwirfoddolwyr a'i hun rhag unrhyw gamau dilynol. O ganlyniad, mae angen i’r Undeb a Chyfryngau Myfyrwyr gydweithio i sicrhau bod camau o’r fath yn cael eu hosgoi.

**Gyda hawliau, daw cyfrifoldebau**

Er mwyn i'r Undeb allu darparu annibyniaeth olygyddol, mae yna gyfrifoldebau y mae angen i wirfoddolwyr a'r Undeb eu deall a'u dilyn.

Cyfrifoldebau Cyfryngau Myfyrwyr

- Gwneud penderfyniadau a gweithredu mewn modd sy'n gyson ag arfer newyddiadurol gorau
- Nodi cynnwys risg uchel a chymryd camau priodol i leihau risg, gan ddilyn gweithdrefnau priodol
- Sicrhau nad yw cynnwys yn amharu ar hawliau eiddo deallusol trydydd parti

Cyfrifoldebau'r Undeb

- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol er mwyn i wirfoddolwyr ddeall cyfraith y cyfryngau
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol er mwyn i wirfoddolwyr gyflawni eu rolau'n effeithiol yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith
- Darparu arweiniad a chefnogaeth briodol i wirfoddolwyr mewn perthynas â phynciau risg uchel
- Darparu yswiriant priodol ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â Chyfryngau Myfyrwyr

Lle nad yw cyfrifoldebau a chamau gweithredu yn cael eu cyflawni, gall yr Undeb gymryd unrhyw un o'r camau canlynol:

- Atal cynnwys risg uchel
- Atal cyhoeddi, cylchrediad, neu ddarlledu
- Atal unigolyn rhag ymwneud â Chyfryngau Myfyrwyr dros dro
- Atal pob gweithgaredd platfform penodol

Gall diystyru, neu atal gweithdrefnau sydd ar waith i reoli cynnwys risg uchel arwain at gamau disgyblu yn erbyn unigolion.